# Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 7. Dod o hyd i arian a'i gael

## 7.4.13 Ariannu lleol - Merthyr Tudful

Lluniwyd y daflen hon i roi gwybodaeth am grantiau bach, sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach o fewn y sector gwirfoddol ym Merthyr Tudful. Bwriedir y cofnodion ar y daflen fel canllaw cyffredinol, a bydd y cysylltiadau a roddir yn medru darparu gwybodaeth fwy manwl i chi.

Dylech ddarllen y daflen hon ynghyd â **7.4.1 Grantiau Bach** sy'n manylu ar y grantiau bach sydd ar gael ar sail ranbarthol neu Gymru gyfan.

### Grantiau Gweithredu Cefn Gwlad

Mae ddwy gronfa are gael: Cronfa Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Gronfa Twristiaeth Cefn Gwlad. Ar gael yn Beddllwynog, Cyfarthfa, Cwm Merthyr a'r Faenor lle all busnesau a grwpiau cymunedol wneud cais. Gall y ddau ddarparu grantiau unigol nail ai o gyfalaf neu gyllid gwerth rhwng £1,000 hyd £15,000. Disgwylir I bob darpar ymdeisydd su'n gwenud cais am brosiect gyfrannu o leiaf 20% o ariannu cyfatebol tuag at gost prosiectau. Rhoddir ystyriaeth I brosiectau sy'n ceisio darparu neu hyrwyddo gwasanaethau lle ceir bylchau ar hyn o bryd oherwydd uniedd cefn gwlad. Gallai hyn fod ar ffurf darparu neu hyrwyddo mynediad at gyfleusterau hamdden, sgiliau, hyfforddiant neu TG, gwella cyfleusterau gofal plant, lle mae prinder gwasanaeth tebyg yn rhwystro rhieni rhag gweithio neu dderbyn addysg a hyrwyddo gwell, gwell gwasanaethau cludiant. Gellir rhoi cefnogaeth hefyd I sefydliadau sydd ynghlwm wrth hyrwyddo digwyddiadau, gwyliau ac atyniadau diwylliannol, ynghyd a'r rhai hynny sy'n ymwneud a chreu gofodau gwyrdd, gwella mynediad at gefn gwlad a dehongli nodweddion amgylcheddol neu dreftadaeth lleol. Am gwybodaeth ychwanegol cysyllwch a: Gweithredu Cefn Gwlad Merthyr, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN ffon 01685 725017 ebost ruralaction@merthyr.gov.uk

### Cynllun Grantiau Bach Ymddiriedolaeth Gymunedol Merthyr Tudful

Mae'r gronfa yma ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol bach ar gyfer unrhyw bwrpas elusennol (ac eithrio gweithgareddau crefyddol).

Ni fydd y grantiau a ddosbarthir yn fwy na £200 fel arfer. Rhaid i'r cais fod am weithgaredd a seilir ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Gellir ystyried ceisiadau gan fudiadau gydag incwm llai na £10,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Cyswllt:**
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tydfil
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol
89–90 Stryd Fawr
Merthyr Tudful CF47 8UH
Ffôn: 01685 353900
enquiries@vamt.net

## Cronfa Ddatblygu Merthyr Tudful

Mae hwn yn gronfa flynyddol ar gyfer ceisiadau gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Gellir gwneud cais am grantiau i gefnogi prosiectau sydd yn fuddiol i bobl ym Merthyr Tudful.

Rheolir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn partneriaeth a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Gall mudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sydd yn medru arddangos y bydd eu hamcanion yn elwa'r gymuned, wneud cais am grant, ar yr amod:

- Nad grŵp sy'n gwneud elw ydynt.
- Bod ganddynt gyfansoddiad neu set o reolau a lofnodwyd neu a 'fabwysiadwyd'.
- Bod ganddynt gyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu gydag o leiaf dau lofnodwr.
- Bod gennych eich Cyfrifon Blynyddol neu Ddatganiad Incwm a Gwariant mwyaf diweddar (wedi'u harchwilio neu'u lofnodi gan berson uwch yn eich grŵp).

Mae'r ystod grantiau o £5,000 i £25,000, ac ar gyfer uchafswm o un flwyddyn.

**Cyswllt:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Dinesig, Stryd y Castell
Merthyr Tudful CF47 8AN
Ffôn: 01685 725076
zoe.thomas@merthyr.gov.uk

## Cronfa Deddf Eglwysi Cymru

Mae'r cynllun grant yma ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont. Mae'n darparu arian i fudiadau sydd ag amcanion elusennol, ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig.

### Pwy all wneud cais?

- Gwahoddir ceisiadau gan Eglwysi, Capeli, Mudiadau Cymunedol ac Elusennau.
- Ystyrir ceisiadau gan fudiadau sy'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont yn unig.
- Wrth ystyried ceisiadau gan fudiadau sy'n bodoli i ddarparu gweithgareddau hobi ar gyfer eu haelodau, dylai'r cyfleusterau a gynigir fod ar gael i aelodau'r cyhoedd, a bydd unrhyw gymorth yn cael ei roi tuag at brosiectau / gwariant o natur gyfalafol a warir gan y mudiad.

### Beth ellir ei ariannu?

Gall ymgeiswyr wneud cais am gefnogaeth grant ar gyfer yr amcanion canlynol:

- Cefnogaeth ar gyfer mannau addoli ac adeiladau cymunedol
- Eitemau cyfarpar bach

- Gweithiau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
- Amcanion buddiol eraill i'r gymuned.
- Ni chefnogir treuliau normal.
- Ni roddir grant i fudiadau gyda thrwydded alcohol.
- Mae costau ôl-weithredol h.y. costau gwaith a wnaed yn barod neu gyfarpar a brynwyd cyn cynnig grant ffurfiol, yn anghymwys ar gyfer y gronfa yma, a ni ddylid ei gynnwys yn y math yma o gais.

Gall ymgeiswyr wneud cais ar gyfer **costau cyfalaf** (gan gynnwys costau trwsio ac adnewyddu) a gellir eu gwobrwyo fel a ganlyn:

| **Categori** | **Uchafswm y Grant** | **Cyfraniad cyfatebol** |
|---|---|---|
| Bach | Hyd at £1,500 | Dim |
| Mawr | Hyd at £10,000 | O leiaf 50% |

*Enghreifftiau*

- Os byddech yn ymgymryd â phrosiect gwerth £30,000, gallech wneud cais am grant gydag uchafswm o £10,000.
- Os byddech yn ymgymryd â phrosiect gwerth £2,000, gallech wneud cais am grant gydag uchafswm o £1,500.

Noder os yw'ch prosiect yn llwyddiannus, telir y cyfan **ar ddiwedd y prosiect** wedi derbyn yr holl anfonebau.

Nid oes terfynau amser pendant ar gyfer ceisiadau, ond mae'r adnoddau ariannol yn gyfyng.

**Cyswllt:**
Tîm Adnoddau Adfywio
Datblygiad ac Adfywio
Valleys Innovation Centre
Navigation Park, Abercynon CF45 4SN
Ffôn: 01443 665789

## Cyngor Chwaraeon Cymru - Grant Cist Gymunedol

Cynllun grant yw hwn gan y Loteri Genedlaethol a gynlluniwyd i annog mwy o bobl i fywiogi'n gorfforol yn amlach. Dan y canllawiau newydd, cynyddwyd uchafswm y grant i £1,000, ond os ydych yn glwb, rydych yn gymwys i wneud cais am £1,000 ar gyfer datblygiad y clwb a hefyd am £1,000 pellach ar gyfer mentrau iechyd / gweithgarwch corfforol o fewn eich clwb.

Gellir defnyddio'r grant i gefnogi pethau eraill megis:

- Prosiectau cerdded neu feicio
- Prosiectau sy'n annog gweithwyr i fod yn fwy corfforol fywiog
- Recriwtio a datblygu gwirfoddolwyr, arweinyddion a hyfforddwyr
- Ymestyn clybiau chwaraeon sy'n bodoli'n barod i ddarparu gweithgareddau newydd
- Sesiwn hamdden rhieni tra bod eu plant yn hyfforddi mewn sesiwn clwb

**Cyswllt:**
Wendy Groves, Arweinydd Tîm Datblygiad Chwaraeon
Ffôn: 01685 725408
wendy.groves@merthyr.gov.uk
Neu Gyngor Chwaraeon Cymru
Ffôn: 0845 045 0904

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Grantiau Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Datblygiad a Gofal Plant

Mae sawl grant ar gael ar gyfer Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Datblygiad a Gofal Plant (EYDCP):

- Grant Cynaladwyedd ar gyfer Darparwyr Gofal Plant Sesiynol
- Grant Cyfarpar Bach ar gyfer Grwpiau Rhieni a Phlant
- Grant Lle Newydd ar gyfer Gosodiadau Gofal Plant Sesiynol Newydd.

Mae yna hefyd grantiau dechrau ar gyfer gofalwyr plant newydd.
Ac eithrio'r grant Lle Newydd a'r Grant Dechrau ar gyfer gofalwyr plant, anfonir y ceisiadau i bob darparwyr a gofrestrwyd gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant, ac mae'n amod y grantiau fod darparwyr yn cofrestru ar y bas data yma.

Delir â cheisiadau grant ar gyfer gofalwyr plant newydd gan Swyddog Datblygu yr NCMA.

**Cyswllt:**
Swyddog Hyfforddi Datblygiad Gofal Plant
Ffôn: 01685 727394
CIS@merthyr.gov.uk

**Ymwadiad**
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

**Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

**Medrwn Môn**
*Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA*
**Elusen Gofrestredig** *1088828*

**Ffôn:** 01248 724944 post@medrwnmon.org
**Ffacs:** 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
**Wedi ei ddiweddaru:**04/03/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk